

THE SMALL WIND CO-OP

# Dogfen Cynnig Cyfranddaliadau Mehefin 2016

- Ymunwch â chydweithfa wynt sy'n berchen ar dyrbinau yng Nghymru a'r Alban
- Cynhyrchwch ynni gwyrdd a byddwch o fudd i gymunedau lleol
- Defnyddiwch yr ynni yn eich cartref neu'ch busnes eich hun
- Enillwch elw teg ar yr arian a fuddsoddwch

# Yr Hanfodion


3 Ymuno â Ni

4 Y Safleoedd

6 Y Tîm

7 Rhagamcanion Ariannol a Risgiau

9 Print Mân

13 Ffurflen Gais a Manylion Cyswllt


Cydweithfa ynni newydd yw'r Small Wind Co-operative a sefydlwyd gan y tîm yn Sharenergy. Rydym yn gweithio gyda grwpiau ynni cymunedol yn y Deyrnas Unedig ers saith mlynedd, gan helpu pobl i sefydlu mwy na 30 o gyrff ynni adnewyddol llwyddiannus o Wlad yr Haf i Shetland.

Fe wnaethom benderfynu ein bod am gychwyn cydweithfa newydd gan adeiladu ar y pethau y mae pobl wedi dweud wrthym y mae arnynt eu heisiau gan gwmni ynni. Y Small Wind Co-op yw'r canlyniad, a hoffem eich gwahodd chi i ymuno â ni.

Rydym yn gwybod nad yw pobl yn ymddiried yn y cwmnïoedd ynni mawr, a dyna pam yr ydym yn gydweithfa fach, yn gyfan gwbl o dan berchenogaeth a rheolaeth ein haelodau – neb yma'n mynd â'r hufen i gyd.

Rydym yn gwybod bod pobl am roi cefnogaeth uniongyrchol i ynni adnewyddol yn y Deyrnas Unedig, felly rydym yn dechrau drwy adeiladu 3 thyrbin gwynt canolig eu maint ar 2 fferm yn yr Alban a Chymru.

Ac rydym yn gwybod bod pobl am gael bargen deg o ran ynni. Fel aelod o'r Small Wind Co-operative, fe ellwch ddefnyddio'r ynni a gynhyrchwch yn eich cartref neu'ch busnes eich hun.

Fe gewch fuddsoddi am gyn lleiad â £100 ac fe gewch elw teg ar eich buddsoddiad - o 4.5% i 6.5% gan ddibynnu ar sut y dewiswch fuddsoddi.

Gan mai cydweithfa ydym ni, byddwn hefyd yn creu cronfeydd cymunedol i'r ardaloedd o amgylch safleoedd y tyrbinau.

# Ymuno â Ni

| | Bondiau | Cyfranddaliadau |
|---|---|---|
| **Elw rhagamcanol** | 4.5% | 6.5% |
| **Math o elw** | Sefydlog am 6 blynedd | Amrywiol, elw ar sail flynyddol dros 20 mlynedd yw'r ffigur. Bydd yr elw'n is yn y blynyddoedd cynnar. |
| **Hawliau pleidleisio** | ✖ | ✔ |
| **Defnyddio trydan yn eich cartref eich hun** | ✖ | ✔ |
| **Mwyafswm daliant** | £5000 | £100,000 |
| **Lleiafswm daliant** | £100 | £100 |

Gellwch geisio ar lein ar **www.crowdfunder.co.uk/smallwind** neu drwy ddefnyddio'r Ffurflen Gais ar ddiwedd y ddogfen hon

Mae dwy ffordd y gellwch ymuno â ni.

Os hoffech yn syml fuddsoddi yn y Small Wind Co-op am elw sefydlog byrdymor, mae nifer gyfyngedig o fondiau ar gael gennym. Bydd y bondiau'n talu 4.5% o log y flwyddyn ac fe'u telir yn ôl ymhen 6 blynedd. Y lleiafswm daliant bondiau i bob person yw £100 a'r mwyafswm yw £5000.

Os hoffech fod yn aelod o'r Small Wind Co-op, gellwch brynu cyfranddaliadau. Mae cyfranddaliadau'n rhoi hawl ichi gael pleidlais gyfartal yn rheolaeth y Gydweithfa, ac elw rhagamcanol o 6.5% dros 20 mlynedd. Y lleiafswm daliant cyfranddaliadau yw £100 a'r mwyafswm yw £100,000. Nid yw'n rhaid ichi barhau'n aelod drwy gydol yr 20 mlynedd, ond gwella a wna'r elw gydag amser felly bydd yn talu ichi feddwl am hyn fel buddsoddiad hirdymor.

Y mae mantais allweddol arall i aelodaeth, sef y cewch ddefnyddio'r trydan a gynhyrchwn eich hun. Wrth gwrs, ni allwn gysylltu'r tyrbinau'n uniongyrchol â'ch tŷ. Ac mae rheoliadau trydan caethiwus y Deyrnas Unedig yn ein hatal rhag gwerthu trydan yn uniongyrchol i'n haelodau. Yn hytrach, rydym wedi'n cysylltu'n hunain â Co-operative Energy.

Fe wnaiff Small Wind Coop werthu'i thrydan i gyd i Co-operative Energy. Os tanysgrifiwch i Co-operative Energy am eich cyflenwad cartref neu fusnes, gellwch ddweud wrthynt am dynnu'ch trydan chi o'n tyrbinau ni – y mae fel cael eich tariff trydan gwyrdd eich hun, nad yw ar gael ond i aelodau'r Small Wind Co-op.

# Safle 1: Troed y Bryn



Fferm yng nghanolbarth Cymru yw Troed y Bryn, dan reolaeth teulu Davies sy'n byw yn y cwm ers cenedlaethau. Fferm ddefaid yw hi'n bennaf er bod gan y teulu draddodiad anrhydeddus o fagu ceffylau a chŵn defaid arobryn.

Rheolir y gronfa gymunedol yn Nhroed y Bryn gan Grannell Community Energy, grŵp newydd a sefydlwyd i ddatblygu, hybu a hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddol a llwybrau eraill at ddatblygu economi leol gynaliadawy, gref yn Llanbedr Pont Steffan a'r fro. Byddant yn rheoli'r gronfa gymunedol dros Droed Y Bryn, a gwelliannau i neuadd y pentref a'r maes chwarae yn Llangeitho yn flaenoriaethau pennaf.



Roeddem am gael tyrbin gwynt ar y fferm i'n cadw i fynd am y genhedlaeth nesaf. Bydd tyrbin cymunedol yn cynhyrchu incwm i'r fferm, i'r pentref ac i bawb a ddaw'n aelod.

**Aled Davies, Ffermwr, Troed y Bryn**

| | |
|---|---|
| **Tyrbin** | 180 cW Endurance X35Q<br>Peiriant sydd wedi'i brofi'i hun ac a wneir yn y Deyrnas Unedig gyda rhwydwaith da o ddarparwyr triniaeth a chynnal a chadw. Uchder y foth: 30m. Uchder blaenau'r llafnau: 48m |
| **Amcan o gynhyrchiant y flwyddyn** | 349,000 cWa<br>Ar sail adroddiad gwynt ceidwadol gan ddefnyddio'r modelu cyfrifiadurol mwyaf blaengar |
| **Perchenogion y tir** | Aled Davies<br>Un o deulu sy'n ffermio yn yr ardal ers cenedlaethau. |
| **Cronfa gymunedol** | Amc £3,000 y flwyddyn<br>Y nod yw defnyddio cyllid o'r tyrbin yn arian cyfatebol i gyflawni mesurau effeithlonrwydd ynni yn neuadd y pentref gan gynnwys gosod ffenestri a drysau newydd, gwella maes chwarae'r pentref ag offer newydd. |
| **Cynllunio** | Caniatâd cynllunio llawn yn ddilys am 20 mlynedd.<br>Cafwyd caniatâd cynllunio yn 2015 a bydd y tyrbinau'n ymuno ag ychydig o rai eraill yn yr ardal sydd eisoes yn gwneud yn dda. |
| **Grid** | Cysylltiad wedi'i fwcio<br>Mae gan y tyrbin gynnig cysylltiad llawn cyfredol gan Western Power â'r ernesau wedi'u talu'n llawn. |
| **Tariff cyflenwi** | Wedi'i ragachredu ar gyfraddau 2015<br>Caiff y tyrbinau dariff cyflenwi o 12.09c/cWa ond iddynt gael eu comisiynu erbyn Ebrill 2017 |

# Safle 2: Kellybank



Mae safle Kellybank yn syth uwchben tref Wemyss Bay, a saif i'r dwyrain o aber Clud lle bydd y gwyntoedd yn chwythu i mewn o'r ynysoedd i'r gorllewin.

Mae llawer o Inverclyde yn dioddef amddifadedd cymdeithasol yn sgil colli cyflogwyr mawr dros y blynyddoedd.  Caiff y gronfa gymunedol o dyrbinau Kellybank ei thargedu i gefnogi mentrau sy'n gwella'r rhagolygon o gyflogaeth, ac sy'n meithrin ymdeimlad o gymuned yn yr ardal.

| | |
|---|---|
| **Tyrbin** | 2x100 cW Norvento ned100<br>Mae peiriannau Norvento'n dod â thechnoleg raddfa fawr i dyrbinau graddfa ganolig, a hwythau wedi'u cynllunio heb ddim gerflwch gyda chefnogaeth gan fusnes cryf, hirsefydlog yn yr Eidal. Uchder y foth: 22m. Uchder blaenau'r llafnau: 36m |
| **Amcan o gynhyrchiant y flwyddyn** | 320,000 cWa yr un<br>Ar sail tri adroddiad gwynt gan ddefnyddio'r modelu cyfrifiadurol mwyaf blaengar |
| **Perchenogion y tir** | Alister McIntyre<br>Un o deulu sy'n ffermio yn yr ardal ers cenedlaethau. |
| **Cronfa gymunedol** | Amc £3,000 y flwyddyn<br>Y nod yw defnyddio cyllid o'r tyrbin i gefnogi ymddiriedolaethau cymunedol lleol sydd eisoes yn helpu pobl yn yr ardal ddifreintiedig hon. |
| **Cynllunio** | Caniatâd cynllunio llawn yn ddilys am 20 mlynedd.<br>Cafwyd caniatâd cynllunio yn 2015 a bydd y tyrbinau'n ymuno ag ychydig o rai eraill yn yr ardal sydd eisoes yn gwneud yn dda. |
| **Grid** | Cysylltiad wedi'i fwcio<br>Mae gan y tyrbinau gynnig grid gan SP Networks, a hwnnw wedi'i dalu'n llawn. |
| **Tariff cyflenwi** | Wedi'i ragachredu ar gyfraddau 2015<br>Caiff y tyrbinau dariff cyflenwi o 12.09c/cWa ond iddynt gael eu comisiynu erbyn Ebrill 2017 |

Mae un tyrbin bach gennym ar y tir eisoes. Mae'n gwneud synnwyr defnyddio'r adnodd sydd gennym a'r gwynt yw hwnnw! Os pallith y gwynt, dyna ddiwedd ein bywoliaeth ni.

**Alister McIntyre, Ffermwr, Kellybank**



# Y tîm

Mae Bwrdd sefydlu'r Small Wind Co-op wedi'i gyfansoddi o aelodau tîm Sharenergy. Yn y Cyf. Cyff. Blynyddol cyntaf gwahoddir aelodau newydd i sefyll i fod ar y Bwrdd – bydd unrhyw un sy'n prynu cyfranddaliadau'n dod yn aelod ac yn gymwys i sefyll.

Nid oes gan Sharenergy ddim rheolaeth hirdymor o'r Small Wind Co-operative – dim ond i helpu i sefydlu'r prosiect ar sylfeini cadarn yr ydym ni yno.

Mae'n swyddogaeth yr ydym wedi'n paratoi'n dda ar ei chyfer. Sefydlwyd Sharenergy yn 2011 a bu'n gweithio ar fwy na 30 o brosiectau ynni cymunedol llwyddiannus ar draws y Deyrnas Unedig.
Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau ynni dŵr, solar ffotofoltäig a'r gydweithfa wres gyntaf yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â sawl tyrbin gwynt dan berchenogaeth gymunedol yn yr Alban: Dingwall Wind Co-op, Wester Derry Wind Co-op a Heartland Community Wind.



Mae Eithne George yn un o gydsylfaenwyr Sharenergy. Mae hi ar hyn o bryd yn arwain gwasanaeth Gweinyddiaeth Sharenergy, gan roi ôl-gefnogaeth hanfodol i fwy nag 20 o Gymdeithasau ynni cymunedol. Mae Eithne hefyd yn un o gydsylfaenwyr yr Hub, rhwydwaith byd-eang o fannau gwaith mentrau cymdeithasol

Jon Hallé yw cydsylfaenydd arall Sharenergy. Mae'n gweithio ym maes ynni cymunedol er 2003 gyda Goldenfuels, Energy4All a Sharenergy. Bu Jon yn gweithio gynt fel prif swyddog technegol i gwmni dotcom ac i'r grŵp ymgyrchu The Land Is Ours. Fe'i dyfarnwyd yn Hyrwyddwr Ynni Cymunedol yn 2015





Arbenigwr mewn ynni adnewyddol yw Jeremy Thorp, ac yntau'n gweithio ar draws y technolegau. A chanddo gefndir mewn modelu grid, y mae erbyn hyn yn arwain prosiect ymchwil Sharenergy ar y grid yng nghefn gwlad ar yr un pryd â chefnogi amryw o brosiectau ynni cymunedol a hybu beiciau trydanol



DINGWALL WIND COOP

Leila Sharland yw'r prif weithiwr prosiect i Small Wind Co-op. Mae gan Leila gefndir mewn tyrbinau gwynt canolig eu maint ar y raddfa a ddefnyddir ar ffermydd, a hithau wedi gweithio i Dulas a Digital Engineering cyn ymuno â Sharenergy yn 2014.


# Rhagamcanion Ariannol


Rydym wedi paratoi rhagamcanion elw a cholled a llif arian wedi'u symleiddio ar y dde, gan ddechrau ym mlwyddyn gyntaf gweithrediad (2017). Dangosant fod llif arian iach gan y prosiect – ac yntau'n talu elw rhagamcanol o 6.5% (cyfradd elw fewnol) i gyfranddalwyr a 4.5% i ddeiliaid bondiau am 6 blynedd.

Rydym wedi gwneud darpariaeth i gwrdd â holl gostau rhedeg y tyrbinau o gynnal a chadw i redeg mesuryddion, yswiriant a darpariaeth ar gyfer rhannau newydd a digomisiynu. Rydym hefyd wedi cynllunio i neilltuo arian bob blwyddyn fel y gallwn ddechrau talu cyfalaf aelodau yn ôl – y mae'n well ei fod yn ôl yn nwylo'n haelodau na'i fod yn gorwedd mewn banc.

Fe welwch isod ddadansoddiad o'r costau cyfalaf a gweithredu.  Mae'n rhagamcanion wedi'u seilio ar ddyfynbrisiau gan gyflenwyr a chryn brofiad o adeiladu a rhedeg tyrbinau ar raddfa debyg

| **EaCh a llif arian** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 **holl** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **bl 1** | **bl 2** | **bl 3** | **bl 4** | **bl 5** | **bl 6-10** | **bl 11-20** | **fldd 1-20** |
| Incwm gweithredu | 182 | 186 | 190 | 195 | 200 | 1,071 | 2,562 | 4,586 |
| Treuliau | | | | | | | | |
| - Treuliau gweithredu | 52 | 53 | 55 | 56 | 58 | 310 | 790 | 1,374 |
| - Dibrisiant | 80 | 80 | 80 | 80 | 80 | 398 | 795 | 1,591 |
| Gwarged Weithredu | 50 | 53 | 56 | 59 | 62 | 364 | 976 | 1,621 |
| + Llog Banc | - | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 | 4 | 14 |
| - Cronfa gymunedol | 6 | 6 | 6 | 6 | 7 | 36 | 86 | 153 |
| - Llog cyfranddaliadau | 28 | 32 | 35 | 39 | 43 | 316 | 893 | 1,387 |
| - Llog bondiau | 16 | 16 | 16 | 16 | 16 | 16 | - | 94 |
| **Llif arian** | | | | | | | | |
| Llif arian gweithredu | 80 | 80 | 80 | 80 | 80 | 398 | 796 | 1,591 |
| - Cyfalaf cyfranddaliadau a ad-delir | 12 | 12 | 12 | 25 | 25 | 323 | 831 | 1,241 |
| - Cyfalaf bondiau a ad-delir | - | - | - | - | - | 350 | - | 350 |
| Arian wrth Ddechrau | - | 67 | 134 | 201 | 256 | 311 | 36 | - |
| Arian wrth Orffen | 67 | 134 | 201 | 256 | 311 | 36 | - | - |



# Allgynhyrchion

Mae gan y Gydweithfa dri phrif nod:

### 1. Cynhyrchu trydan carbon isel.

Rhagamcenir i'n tri thyrbin gynhyrchu rhyw ychydig dros 1000 MWa o drydan y flwyddyn – gigawatt-awr. Mae hynny'n ddigon:



i yrru car trydan 4 miliwn milltir



i wneud deng miliwn panaid o goffi



i gyflenwi pŵer i'r Deyrnas Unedig gyfan am 2 funud



i leihau'r $CO_2$ a ollyngir o 450 o dunelli

### 2. Galluogi aelodau i ddefnyddio'r ynni a gynhyrchir

Caiff aelodau fynediad dethol at declyn Dewis Defnyddiwr Co-operative Energy felly cewch brynu yn ôl yr ynni a werthwn iddynt ar gyfraddau rhesymol. Chi biau dewis yn hollol a ydych am fanteisio ar y cynnig hwn ai peidio – i wneud felly byddai'n rhaid ichi newid eich cyflenwr i Co-operative Energy. Cyflenwr ethegol ydyn nhw o dan berchenogaeth y gydweithfa lwyr gydfuddiannol Midcounties Co-op. **https://www.cooperativeenergy.coop/compare/**

### 3. Cyfrannu at gronfeydd cymunedol lleol

Rydym yn anelu at roi o leiaf £3000 y safle bob blwyddyn yn ôl i mewn i'r gymuned leol – mae hynny'n fwy na theirgwaith cymaint â'r gyfradd fasnachol 'arfer orau' i gronfeydd cymunedol gan ffermydd gwynt mawr. Gweler y crynodebau o'r safleoedd am y cynlluniau cyfredol i wario'r cronfeydd cyntaf. Cydweithfa go iawn yw'r Small Wind Co-op ac nid yw wedi'i sefydlu i fod yn ddim ond cyfrwng buddsoddi. Ond rydym yn hollol o ddifrif ynghylch rhoi elw da ar gyllid a danysgrifir gan ein cyfranddalwyr a deiliaid bondiau.

Rydym yn anelu at wneud taliadau llog ar gyfranddaliadau o flwyddyn 1 ymlaen, gan gynyddu gydag amser:

| Caiff Cyfranddaliwr £1000 | bl 1 | bl 2 | bl 3 | bl 4 | bl 5 | bl 6-10 | bl 11-20 | holl fldd 1-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llog cyfranddaliadau | 23 | 26 | 28 | 31 | 34 | 255 | 720 | 1,118 |
| Ad-daliad cyfalaf | 10 | 10 | 10 | 20 | 20 | 260 | 670 | 1,000 |
| Cyfanswm | 33 | 36 | 38 | 51 | 54 | 515 | 1,390 | 2,118 |
| Cronnol | 33 | 68 | 107 | 158 | 213 | 728 | 2,118 | 2,118 |

Rhagamcenir y gyfradd elw fewnol yn 6.5%. Bydd elw'n is os dewis aelodau dynnu cyllid allan cyn diwedd cyfnod 20 mlynedd y prosiect.

Rhagamcenir i fondiau roi elw sefydlog o 4.5% yn ystod 6 blynedd eu hoes:

| Caiff Deiliad Bondiau £1000 | bl 1 | bl 2 | bl 3 | bl 4 | bl 5 | bl 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llog bondiau | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 |
| Ad-daliad cyfalaf | - | - | - | - | - | 1,000 |
| Cyfanswm | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 1,045 |
| Cronnol | 45 | 90 | 135 | 180 | 225 | 1,270 |

Bydd llog o gyfranddaliadau a bondiau'n ddi-dreth i lawer o aelodau o dan y cynllun Lwfans Cynilion Personol newydd - gweler **http://tinyurl.com/PSAfacts**

# Risgiau

Mae risg ynghlwm ym mhob gweithgaredd masnachol – ac nid yw prosiectau ynni cymunedol yn eithriad o gwbl.

Os caiff y gydweithfa flwyddyn wael, efallai y cewch lai o log nag a ragamcenir. Caiff taliadau llog ar fondiau flaenoriaeth dros gyfranddaliadau ond ni ellir eu gwarantu o dan bob math o amgylchiadau.

Os â rhywbeth o'i le yn y tymor hwy, yna gall fod perygl i'ch cyfalaf. Cyfranddaliadau diddymadwy yw'n rhai ni sy'n golygu na ellir eu gwerthu ond y cewch dynnu allan ar unrhyw adeg os bydd angen. Rydym wedi gwneud darpariaeth sylweddol i gwrdd â hyn ond ni ellir gwarantu'r posibilrwydd o dynnu allan.

Rydym wedi gwneud pob ymdrech i leihau'r risgiau i'n cyfranddalwyr a'n deiliaid bondiau. Ar y dde rydym yn crynhoi rhagdybiaethau a risgiau allweddol, ynghyd â'r camau yr ydym wedi'u cymryd i'w lleihau.

**Rhagdybiaethau ariannol.** Rhagdybiwn gyfradd chwyddiant o 3% ar brisiau trydan a 2.5% ar bopeth arall, a llog o 1% ar adneuon banc hirdymor. Byddai cyfradd is o chwyddiant yn gostwng perfformiad (er y byddai hefyd yn debygol o ostwng elw mewn mannau eraill). Rydym wedi defnyddio ffigurau ceidwadol sy'n adlewyrchu gwerthoedd isel cyfredol gydag addasiad bach ar gyfer tueddiadau hanesyddol ar yr amserlen 20 mlynedd.

**Gwynt**. Mae rhagamcanion gwynt wedi'u seilio ar fodelu cyfrifiadurol gan ddefnyddio gwerthoedd ceidwadol. Byddai gwynt is yn effeithio ar berfformiad. Bydd y rhent i berchenogion tir yn gostwng i lefel is os bydd cyflymder y gwynt o dan ffigur penodol. Rydym wedi cynnwys darpariaeth fach ar gyfer traul sy'n lleihau effeithlonrwydd tyrbinau dros amser (0.25% y flwyddyn).

**Tariff cyflenwi**. Os gostyngir y tariff cyflenwi, bydd incwm yn lleihau gydag ef. Ond mae'r naill Lywodraeth ar ôl y llall wedi cadarnhau ymrwymiad i gadw'r tariff ar y lefelau a gontractiwyd, er gwaethaf unrhyw leihad i brosiectau sy'n ymuno â'r cynllun wedyn. Mae'n tariff cyflenwi ni wedi'i ragachredu: wedi'i warantu gan Ofgem i fod ar y gyfradd a fodelwyd (12.19c/cWa) ond i dyrbinau fod ar waith erbyn Ebrill 2017.

**Pris trydan.** Mae'r rhagamcanion yn rhagdybio pris trydan o ryw fymryn dros 5c/cWa i gyd. Os disgyn prisiau cyfanwerthu, fe ddisgyn yr incwm. Gan fod prisiau trydan ar hyn o bryd yn isel iawn, rydym wedi trefnu cytundeb Prynu Pŵer mynegrifol fel y caiff unrhyw gynnydd yn y farchnad ei basio ymlaen i ni.

**Tyrbinau.** Bydd toriadau hir ar gyfer cynnal a chadw'n lleihau incwm. Mae'r tyrbinau a ddewiswyd yn beiriannau sydd wedi'u profi'u hunain ac yn darparu gwasanaeth da yn y Deyrnas Unedig. Rydym wedi cymryd i ystyriaeth gost gwarant â'r gwneuthurwyr yn gwarantu amser gweithredol o 95%, ac yswiriant rhag colli incwm.

**Costau gweithredu.** Byddai costau uwch am gynnal a chadw, gweinyddiaeth, yswiriant ac ardrethi'n lleihau perfformiad. Lle roedd modd rydym wedi rhwymo contractau 5 mlynedd gyda chyflenwyr y gellir bod yn hyderus ohonynt i leihau'r risg.

# Print Mân: Y Gydweithfa

**Cyfranddaliadau'r cyfarwyddwyr**
Mae'r Cyfarwyddwyr yn bwriadu cymryd 10,000 o gyfranddaliadau yn y Small Wind Co-operative ('y Gymdeithas').

**Arferion y Bwrdd**
Ni thelir Cyfarwyddwyr a heblaw am ad-dalu treuliau, nid oes buddion eraill i Gyfarwyddwyr. Y Gymdeithas a fydd yn rheoli'r gwaith beunyddiol, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd.

**Gwrthdaro rhwng Buddiannau**
Mae'r holl gyfarwyddwyr sefydlu'n aelodau o staff Sharenergy Co-operative, sy'n darparu gwasanaethau datblygu a gweinyddiaeth barhaus i'r Gymdeithas.

**Trosglwyddo Datblygiad**
Digolledir y datblygwyr prosiect blaenorol am gostau datblygu a gafwyd cyn y Cynnig a mewn perthynas ag ef, ac am y risg a gymerwyd wrth ddatblygu'r prosiect o'i gamau cyntaf. Wedi'r digollediad hwn fe ildia'r datblygwyr prosiect blaenorol bob perchenogaeth ar y prosiect i'r Gymdeithas. Fe dâl y Gymdeithas rent tir blynyddol wedyn i'r perchenogion tir dan y Prydlesi ar bob safle.

**Gweinyddiaeth**
Fe ddarpara Sharenergy wasanaeth gweinyddiaeth a rheolaeth parhaus i'r Gymdeithas am ffi flynyddol, sydd wedi'i gosod ar £10,000, a hynny'n cynyddu gyda'r MPM fel contract sefydlog am 5 mlynedd.

**Cyfrifon**
Corfforwyd y Small Wind Co-operative ar 3 Ionawr 2014. 31 Rhagfyr yw diwedd ei blwyddyn ariannol. Adeg y dyroddiad cyfranddaliadau hwn nid yw'r Gymdeithas wedi masnachu o'r blaen.

**Camau Cyfreithiol**
Ni fu dim camau llywodraethol, cyfreithiol na chyflafareddol mewn perthynas â'r Gymdeithas ac nid oes rhai yn yr arfaeth nac yn cael eu bygwth a allai gael effaith o bwys ar sefyllfa ariannol na phroffidioldeb y Gymdeithas.

**Lleiafswm Cyllid i'w Godi**
Os cwyd y cynnig hwn lai na £700,000 caiff y Cyfarwyddwyr ei estyn. Os bydd y lleiafswm yn dal i fod heb ei godi caiff yr arian a danysgrifiwyd eu rhoi yn ôl i aelodau. Os dim ond y lleiafswm hwn a godir, fe ofyn y Cyfarwyddwyr am gymeradwyaeth y tanysgrifwyr i fwrw ymlaen ag un safle, cyhyd ag y gellir diogelu'r elw i aelodau.

**Datblygiadau yn y Dyfodol**
Fe gais y Gymdeithas gyfleoedd i ddatblygu prosiectau gwynt yn y dyfodol os cwyd cyfleoedd gan ddibynnu ar gymeradwyaeth aelodau.

**Gwybodaeth bellach**
Mae dogfennau eraill a grybwyllir yn y Cynnig hwn, gan gynnwys Rheolau'r Gymdeithas, ar gael gan y Gymdeithas.

**Datgeliad**
Nid oes yr un o gyfarwyddwyr y Gymdeithas a gafodd, o leiaf yn ystod y pum mlynedd diwethaf, unrhyw euogfarn (am unrhyw drosedd o dwyll nac o fath arall), nac a fu ynghlwm mewn unrhyw fethdaliadau nac yn llaw'r derbynnydd, nac a fu'n destun unrhyw gyhuddiad na sancsiwn cyhoeddus gan awdurdod statudol na rheoleiddiol na chorff proffesiynol dynodedig, nac a gafodd ei wahardd o unrhyw swyddogaeth gan unrhyw lys.

Mae gwybodaeth gyffredinol a gafwyd gan drydydd partïon yn y Ddogfen Gynnig hon wedi'i hatgynhyrchu'n gywir. Hyd y gŵyr y Cyfarwyddwyr, ni hepgorwyd dim ffeithiau a fyddai'n golygu bod yr wybodaeth a atgynhyrchwyd yn anghywir neu'n gamarweiniol.

Mae'r Small Wind Co-operative yn cydymffurfio â gofynion statudol a rhai'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Gan na fydd y Cyfranddaliadau wedi'u rhestru, nid yw'n rhaid i'r Gymdeithas gydymffurfio â'r Cod Cyfun ar Lywodraethiant Corfforaethol.

Dim ond ar ôl darllen y ddogfen hon yn ei chyfanrwydd a chymryd cyngor priodol o fath ariannol ac arall y dylai'r rhai sydd â diddordeb mewn buddsoddi wneud felly. Nid yw'r cynnig cyfranddaliadau hwn yn dod o dan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol na'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol.

# Print Mân: Cyfranddaliadau a Bondiau

**Y Cynnig Cyfranddaliadau**

Cynigir 1,241,000 o gyfranddaliadau cyffredin o £1 ar lawn werth ac yn daladwy'n llawn pan gymeradwyir cais ar Delerau ac Amodau'r Ddogfen Gynnig hon. Mae'r Cyfranddaliadau, nas gwerthir ar unrhyw gyfnewidfa stoc, wedi'u creu o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Defnyddir enillion y cynnig cyfranddaliadau i gwrdd â chostau a geir wrth ddatblygu a gosod tyrbinau gwynt ar raddfa fferm yn y Deyrnas Unedig.

**Dosrannu cyfranddaliadau**

Dosrennir cyfranddaliadau ar sail cyntaf i'r felin. Caiff ymgeiswyr llwyddiannus dystysgrifau cyfranddaliadau a chofnodir eu manylion a'u daliannau mewn cofrestr gyfranddaliadau a gedwir gan y Gymdeithas.

**Aelodaeth**

Daw pob person neu gorff a gaiff Gyfranddaliadau yn Aelod o'r Gymdeithas, â hawliau aelodaeth a ddiffinnir yn y Rheolau. Y prif hawliau yw:

- Un bleidlais y daliant ar benderfyniadau gan yr Aelodau, gan gynnwys mewn perthynas â phenodi Cyfarwyddwyr.
- Un bleidlais sydd gan bob Aelod, waeth faint o Gyfranddaliadau a fo ganddo/i.
- Yr hawl i gael taliad llog blynyddol cymesur yn elw ar y buddsoddiad mewn cyfranddaliadau (gan ddibynnu ar y warged sydd ar gael).
- Yr hawl i gael cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl ar ddiwedd oes yr Orsaf (gan ddibynnu ar yr asedau dros ben a fo ar gael ac unrhyw fusnes newydd gan y Gymdeithas).
- Fel Aelod, bod yn gymwys i'w (h)ethol i'r Bwrdd.

**Hawliau i gael rhan o elw/gwargedion**

Mae gan bob Aelod yr hawl i gael rhan o log a ddatgenir allan o elw blynyddol, a thaliadau o'r fath i'w rhannu'n gyfartal rhwng cyfanswm y Cyfranddaliadau sydd wedi'u dyroddi. Golyga hyn mai un bleidlais sydd gan Aelod â 10,000 o gyfranddaliadau ond y caiff log ar y 10,000 o gyfranddaliadau i gyd. Pan ddaw'r Orsaf i ddiwedd ei hoes caiff Aelodau ddewis diddymu'r Gymdeithas, a'r asedau o dan yr amgylchiadau hynny'n cael eu gwerthu a'r enillion net yn cael eu defnyddio i ad-dalu cyfalaf cyfranddaliadau Aelodau.

**Darpariaethau ar gyfer Adbrynu Cyfranddaliadau**

Gellir Adbrynu Cyfranddaliadau yn unol â'r Rheolau. Nid oes gan Aelodau'r hawl i dynnu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl ond mae gan Fwrdd y Gymdeithas y grym i ganiatáu i Gyfranddaliadau yn y Gymdeithas gael eu tynnu yn ôl drwy gytundeb rhwng y Bwrdd a'r Aelod. At hynny, mae gan y Bwrdd y grym i roi cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl i Aelodau fel a welo'n ddoeth.

**Y Cynnig Bondiau**

Cynigir 350,000 o Fondiau am £1. Tymor 6 blynedd sydd i'r Bondiau ac maent yn ennill cyfradd sefydlog o log o 4.5%.

**Darpariaethau ar gyfer Ad-dalu Bondiau**

Ad-delir cyfalaf bondiau ar ôl y 6ed Cyf. Cyff. Blynyddol ar lawn werth.

**Taliadau llog**

Telir pob taliad llog yn flynyddol ar ôl y Cyf. Cyff. Blynyddol.
Telir Llog Cyfranddaliadau ar fantolen cyfrif pob Aelod ar gyfraddau sy'n adlewyrchu'r perfformiad ariannol blynyddol. Cytunir cyfradd y llog ar gyfranddaliadau gan Aelodau yn y Cyf. Cyff. Blynyddol. Gwneir Llog ar Fondiau ar gyfradd sefydlog o 4.5%.

**Trethu**

Yn grynswth y gwneir taliadau llog i Aelodau a bydd buddsoddwyr yn gyfrifol am ddatgan yr incwm hwn ar eu ffurflenni treth heblaw lle byddant wedi'u heithrio o wneud hynny drwy Lwfans Cynilion Personol neu unrhyw gynllun o'r fath.

**Darpariaethau pan fo Aelod farw**

Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, pan fo aelod o'r Gymdeithas farw, caiff ei g/chynrychiolydd personol wneud cais am dynnu'r cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl neu am drosglwyddo'r cyfranddaliadau i rywun arall. Rhoddir blaenoriaeth gan y Bwrdd i ddychwelyd cyfalaf cyfranddaliadau o dan y ddarpariaeth hon dros unrhyw achos arall o ddychwelyd cyfalaf Aelodau.

# print Mân: Telerau ac Amodau

**Cymhwystra**

Mae'r Cynnig yn agored i unrhyw berson (dros 16 oed) neu gorff sy'n cwrdd â'r gofynion aelodaeth.

**Trefn ymgeisio**

- Ymgeisir am Gyfranddaliadau neu Fondiau gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais neu ar lein o dan **www.crowdfunder.co.uk/smallwind**
- Drwy wneud Cais cynigia Ymgeisydd danysgrifio, ar y Telerau a'r Amodau hyn, am y nifer o Gyfranddaliadau neu Fondiau a bennir, neu unrhyw nifer lai a ddosranner.
- Cytuna Ymgeisydd a gaiff Gyfranddaliadau i aelodaeth awtomatig o'r Small Wind Co-operative ac i gael ei r(h)wymo gan ei Rheolau.
- Ni ellir tynnu cais yn ôl wedi iddo gael ei wneud.
- Pris pob cyfranddaliad yw £1. Y lleiafswm yw 100. Y mwyafswm yw 100,000.
- Pris pob bond yw £1. Y lleiafswm yw 100. Y mwyafswm yw 5,000.
- Derbynnir tanysgrifiadau lluosog ond iddynt beidio â rhoi mwy na'r mwyafswm i Aelod.

**Amserlen y Cynnig**

Erys y Cynnig ar agor hyd 22 Gorffennaf 2016 oni bydd wedi'i danysgrifio'n llawn cyn hynny. Ceidw'r Cyfarwyddwyr yr hawl i estyn y cynnig cyfranddaliadau os bydd eisiau. Ni fydd neb o'r Gymdeithas, ei Chyfarwyddwyr na'i hymgynghorwyr yn gyfrifol am log nac unrhyw fudd arall a gollir gan Ymgeiswyr tra delir yr arian gan y Gymdeithas.

**Gweithdrefnau wedi derbyn cais**

- Cyflwynir unrhyw sieciau/drafftiau banc pan ddônt i law a gallant gael eu gwrthod os na chliriant.
- Gellir cadw Arian Cais Dros Ben wrth ddisgwyl i sieciau glirio.
- Gellir gwrthod ceisiadau'n gyfan gwbl, neu'n rhannol, neu gellir eu lleihau.
- Dychwelir arian mewn perthynas ag unrhyw Geisiadau a wrthodir neu a leiheir heb fod yn hwyrach nag un mis ar ôl diwedd y Cynnig.
- Nid oes dim llog yn daladwy ar Arian Cais a gyflwynir a fydd wedyn i'w dychwelyd.
- Gellir derbyn Ffurflenni Cais anghyflawn neu anghywir fel petaent yn gyflawn ac yn gywir.
- Os ceir gordanysgrifio, fe benderfyna'r Cyfarwyddwyr, yn ôl eu doethineb eu hunain, sut y dosrennir Cyfranddaliadau a/neu Fondiau.
- Dyroddir tystysgrifau Cyfranddaliadau a Bondiau i Ymgeiswyr llwyddiannus o fewn un mis i ddiwedd Cyfnod y Cynnig.

**Trefniadau prisio, masnachu a delio**

Cynigir Cyfranddaliadau a Bondiau am eu llawn werth o £1. Y maen debygol yr erys gwerth ased isorweddol pob Cyfranddaliad neu Fond yn £1 ac ar lawn werth yr adbrynir unrhyw Gyfranddaliadau neu Fondiau. Ni cheir gwerthu na throsglwyddo Cyfranddaliadau a Bondiau.

**Ymgeisio am Gyfranddaliadau**

Cyn cwblhau Cais dylech ystyried cymryd cyngor priodol o fath ariannol ac arall. Wrth lofnodi'r Ffurflen Gais rydych yn gwneud cynnig di-alw'n-ôl i ymgymryd â chontract gyda'r Gymdeithas. O dan Reoliadau Gwyngalchu Arian, gall fod gofyn ichi gyflwyno tystiolaeth foddhaol o bwy ydych chi ac mae'n amod ar y Cynnig eich bod yn gwneud hynny yn ôl y gofyn. Mae'n rhaid i'r sawl nad ydynt yn preswylio yn y Deyrnas Unedig gymryd cyfrifoldeb am sicrhau nad oes dim cyfreithiau na rheoliadau yn eu gwlad eu hunain a fyddai'n eu hatal rhag buddsoddi mewn Cymdeithas yn y Deyrnas Unedig neu rhag derbyn incwm ganddi.

**Talu**

Os â'r ffurflen bapur yr ydych yn ymgeisio, atodwch siec neu ddrafft banc, wedi'i godi ar fanc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, am yr union swm a ddangosir yn y blwch o dan 'Y swm i'w fuddsoddi'. Cewch dalu hefyd drwy drosglwyddiad banc. Cewch dalu drwy ddebyd uniongyrchol neu drwy gerdyn credyd /debyd os ar lein yr ydych yn ymgeisio.

# Ffurflen Gais

Y ffordd hawsaf i geisio am fondiau neu gyfranddaliadau yw ar lein ar ein Safle Crowdfunder **www.crowdfunder.co.uk/smallwind** lle cewch y dewis o dalu drwy gerdyn credyd/debyd neu drosglwyddiad banc. Os yw'n well gennych dalu drwy siec neu os yw'n well gennych gael ffurflen gais bapur, llenwch y ffurflen hon os gwelwch yn dda.

Teitl (Mr/Mrs/Ms/arall): ___________ Enwau Blaen: ______________________________________
Cyfenw: ______________________________________________________________________

Ebost: ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐
(os gwelwch yn dda rhowch eich ebost os oes modd i gadw costau gweinyddu i lawr).

Cyfeiriad Post: __________________________________________________________________
______________________________________________________________________________
Cod Post: _________________________ Ffôn yn ystod y Dydd: ___________________________

Os ar ran corff yr ydych yn ceisio rhowch hefyd y canlynol
Enw'r corff: ______________________________________________________________
Cyfeiriad y corff: _____________________________________________________________
______________________________________________________________________________
Math o gorff: __________________________ Rhif cofrestru: ________________
Eich safle o fewn y Corff:_______________________ (rhaid ichi fod wedi'ch awdurdodi i lofnodi)

**CYFRANDDALIADAU.** Dymunaf brynu cyfanswm o ☐☐☐,☐☐☐ o gyfranddaliadau yn y Small Wind Co-op am £1.00 y cyfranddaliad. (lleiafswm: £100, mwyafswm: £100,000).

**BONDIAU.** Dymunaf brynu cyfanswm o ☐,☐☐☐ o fondiau yn y Small Wind Co-op am £1.00 y bond. (lleiafswm: £100, mwyafswm: £5,000. Cewch brynu cyfranddaliadau yn ogystal â bondiau os dymunwch)

Os hoffech i daliadau **gan y Gymdeithas i chi** gael eu gwneud drwy drosglwyddiad banc, rhowch eich manylion banc os gwelwch yn dda:
Rhif Cyfrif Banc: _______________________________ Cod Didoli: _____________________

Ticiwch y ddau flwch i gadarnhau:

☐ Rwyf wedi darllen y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau an nid wyf yn dibynnu ar ddim ffynhonnell arall o wybodaeth am y Gymdeithas. Rwyf dros 16 oed ac yn gymwys i Ymgeisio am Gyfranddaliadau neu Fondiau. Rwyf wedi ystyried a oes eisiau imi gymryd cyngor ariannol neu gyngor arall. Awdurdodaf y Gymdeithas i wneud ymholiadau i gadarnhau cymhwystra'r Cais hwn os bydd eisiau.

☐ Deallaf y gellir tynnu'r cais hwn yn ôl os cyhoeddir dogfen gynnig atodol, ond nid fel arall, a'i fod, o'i dderbyn gan y Gymdeithas, yn ffurfio contract o dan y gyfraith ar Delerau ac Amodau'r ddogfen gynnig.

Llofnod: _______________________
Dyddiad: ______________________

**SIEC**. Os drwy siec yr ydych yn talu gwnewch hi'n daladwy i **Small Wind Co-operative Ltd** a chroeswch â Taliedydd y Cyfrif.

**TROSGLWYDDIAD.** Os drwy drosglwyddiad yr ydych yn talu defnyddiwch y manylion hyn:
**Small Wind Co-operative Limited.** Cod didoli: **60-83-01** Rhif cyfrif: **20365932**
Defnyddiwch enw'r Ymgeisydd fel y cyfeirnod a atodir wrth y trosglwyddiad.

Anfonwch eich Ffurflen Gais wedi'i llenwi at **Small Wind Co-op, The Pump House, Coton Hill, Amwythig, SY1 2DP** neu llofnodwch hi, sganiwch hi a'i hanfon drwy e-bost at **info@smallwind.org.uk**

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn dweud wrthym sut y clywsoch yn gyntaf am y Cynnig Cyfranddaliadau hwn:

# Cysylltu â ni

Ar gyfer pob ymholiad cysylltwch â Leila Sharland yn Sharenergy ar **01743 277119** neu drwy **info@smallwind.org.uk**

Mae'n gwefan ni i'w chael ar **www.smallwind.org.uk** ac mae'n gwefan Crowdfunder ar **www.crowdfunder.co.uk/smallwind**

Mae'r Small Wind Co-operative yn Gymdeithas Gofrestredig (Cydweithfa) wedi'i Chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Ein rhif cofrestredig yw **32279R**

Cydnabyddiaeth am ffotograffau: Small Wind Co-op, Dingwall Wind Co-op, Endurance, Norvento, Heartland Community Wind

